**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**
**13 HYDREF 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mawrth, 13 Hydref 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rosetta Dolphin (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, David Evans, George Hardcastle, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Kevin Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Carol Ellis

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad; y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd; Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant); Prif Weithredwr, Rheolwr Menter ac Adfywio, Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio, Arweinydd Tîm Safonau Masnach.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwyluswyr Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 10. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim

## 11. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol a'r Camau Gweithredu i'w Holrhain, er mwyn eu hystyried, a rhoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) ddiweddariadau cryno ar rai o'r eitemau.

Mewn ymateb i geisiadau gan Gynghorwyr, fe wnaeth yr Hwylusydd Craffu gadarnhau y byddai adroddiadau ar y Strategaeth Trafnidiaeth Integredig a Newid Hinsawdd yn cael eu dwyn gerbron y Pwyllgor pan geir unrhyw wybodaeth berthnasol bellach i'w chyflwyno, a chadarnhaodd y gellid ychwanegu Gorfodaeth Cynllunio. Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) y gellid sefydlu cyfarfod rhithwir gyda'r Tîm Rheoli a Rheolwr y Prosiect o Barc Adfer, oherwydd bod yr ymweliad safle wedi'i ohirio yn y flwyddyn newydd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Owen Thomas, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), fod yna gynlluniau am lwybr beicio o Rydymwyn i'r Wyddgrug a oedd wedi'u cyflwyno, ac roedd Swyddogion yn edrych ar y llwybr gyda'r opsiwn i ddefnyddio tir yr hen reilffordd segur, ond yn anffodus, nid oedd llawer o'r tir hwnnw ym mherchnogaeth y Cyngor. Byddai angen ei hysbysebu fel rhan o Fap Rhwydwaith, a fyddai yna'n disgyn i'r broses ymgeisio ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd y byddai hynny ychydig o flynyddoedd i ffwrdd gan fod llawer o waith ynghlwm wrth gaffael y tir a chael cefnogaeth i'r llwybr gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd y Cynghorydd Evans beth oedd yr amserlen ar gyfer llwybr beiciau yr Wyddgrug i Frychdyn. Rhoddodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) wybod fod yna gyfres lawn o gynlluniau ar gyfer y llwybr nawr, a'i fod wedi bod yn sgwrsio gyda Llywodraeth Cymru am y cyllid posibl yr oeddent yn fodlon ei roi ar gyfer darnau o'r Wyddgrug i Fwcle a Sandycroft i Airbus, yn hytrach na'r hyd i gyd, a byddai'n rhannu'r cynlluniau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Roedd gan y Cynghorydd Hutchinson ddiddordeb mewn gwybod a oedd llwybr gwreiddiol llwybr beiciau yr Wyddgrug i Frychdyn a Chaer yn bwriadu bod ar hyd Dyffryn Alun drwy Long a Phenyffordd. Teimlai y byddai'r llwybr hwn yn gwneud beicwyr yn amharod i fynd arno am iddynt orfod beicio i fyny Warren Hill, neu a fyddai'n dilyn y rheilffordd ar hyd Dyffryn Alun, sydd fwy neu lai yn wastad i Frychdyn a thu hwnt, i Saltney a Chaer.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) wybod mai dyma fyddai'r llwybr a ffefrir, ond yn anffodus nid yw'r tir bellach ym mherchnogaeth y Cyngor. Roedd trafodaethau'n digwydd gyda'r perchennog tir i ddefnyddio darnau o'r rheilffordd wrth iddi ddod allan o'r Wyddgrug drwy Wylfa, lle mae gennym broblemau yn cael lôn feiciau benodol. Cyfeiriodd at lwybr arall sy'n defnyddio'r ymylon, heibio Gwaith Sment Padeswood, hyd at Dobshill. Byddai hon yn lôn feiciau benodol ac nid yn lôn feiciau ar ffordd, felly byddai'n gallu dilyn y rheilffordd am ei hyd i gyd. Byddai manylion yn cael eu rhannu mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Bithell bod yna gyfres o ymgynghoriadau i fod i ddigwydd ym Mawrth, ond cawsant eu terfynu oherwydd y sefyllfa o argyfwng mewn perthynas â llwybr beiciau yr Wyddgrug i Frychdyn. Cafodd cyfran o'r hen reilffordd ar hyd llwybr beiciau Rhydymwyn i'r Wyddgrug ei gwerthu nifer o flynyddoedd yn ôl i grŵp rheilffordd ysgafn, nad oedd bellach yn cael ei redeg. Ychwanegodd y gallai cyfle godi i gael trafodaethau gyda nhw i gael y tir yn ôl ym mherchnogaeth y cyhoedd a chael y ffordd feiciau ar hyd y llwybr hwnnw.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Shotton yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd gan y Cynghorydd David Evans.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod y Pwyllgor yn ystyried y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol drafft a chymeradwyo/newid fel bo'r angen;

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cwblhau'r camau gweithredu sy'n weddill.

## 12. <u>BRIFFIO YNGHYLCH SEFYLLFA FRYS (LLAFAR)</u>

Fe eglurodd y Prif Weithredwr fod y sefyllfa bresennol yn un ansefydlog. Byddai o a'r Uwch Swyddogion yn sicrhau bod Aelodau yn cael diweddariad byr

ar lafar ar ddechrau cyfarfodydd. Dywedodd hefyd y gallai fod yn angenrheidiol eto i ailgyflwyno'r briffiadau sefyllfaol a gafodd eu rhoi i Aelodau yn ystod chwe mis cyntaf yr argyfwng.

**PENDERFYNWYD:**

Nodwyd.

## 13. TROSOLWG ADFYWIO

Atgoffodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y Pwyllgor eu bod wedi trafod y newid i'r Cylch Gorchwyl yn y cyfarfod diwethaf, drwy ddod â Menter ac Adfywio i mewn, a oedd yn adrodd gerbron Cymuned a Menter yn flaenorol.

Rhoddodd y Rheolwr Menter ac Adfywio drosolwg o'r Gwasanaeth Menter ac Adfywio i ymgyfarwyddo'r Pwyllgor â'i agweddau gwaith ef:-

Swyddogaethau Gwasanaeth

- Datblygu Busnes
- Adfywio Tai
- Rhaglenni Cyflogadwyedd
- Gwerth Cymdeithasol
- Cysylltedd Digidol
- Adfywio
- Llywodraethu Economaidd

Holodd y Cynghorydd Heesom faint o Aelodau a allai oruchwylio a chyfranogi yn y broses adferiad economaidd. Rhoddodd y Rheolwr Menter ac Adfywio wybod fod craffu ar y broses adferiad economaidd yn swyddogaeth bwysig o'r Pwyllgor hwn. Dywedodd ei fod yn agored i awgrymiadau gan Aelodau ynghylch sut y gellid gwella cyfathrebu.

Rhoddodd y Cynghorydd Shotton sylw ar faint o bwysau sy'n gorfod bod ar y Tîm Gwaith Cymunedol, a holodd a oedd Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth gan y byddai sawl swydd dan fygythiad. Ychwanegodd mai ailhyfforddi oedd yr allwedd i ennill cyflogaeth a gofynnodd a oedd gwaith yn dal yn mynd rhagddo, gan roi esiampl o faint oedd wedi'i wneud gyda'r Sector Gofal. Cytunodd Menter ac Adfywio ei fod yn amser anodd ar y funud, ond nid oedd hyn yn disgyn ar y Tîm Pwyllgorau dros Waith yn unig, roedd yn ymdrech a rennir, ac ni ellid rhagweld niferoedd, ond roedd sgwrs yn parhau i fod, i ddeall y pwysau cyfredol, ac fe roddwyd hyn yn adborth i Lywodraeth Cymru. Roedd rhai rhaglenni dal yn digwydd drwy ddysgu rhithwir, ond nid oedd modd anfon pobl i weithleoedd am brofiad gwaith.

Rhoddodd y Rheolwr Menter ac Adfywio wybod fod pwynt y Cynghorydd Shotton am Gysylltedd Digidol yn gywir, yn y modd bod rhai darparwyr yn buddsoddi, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf poblog, ond ar draws Gogledd Cymru, nid oedd yn digwydd yn aml, gan nad oedd yn ardal ddeniadol i fuddsoddi ynddi'n naturiol. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o raglen cynnig Twf i gysylltedd digidol.

Rhoddodd y Cynghorydd Hutchinson wybod fod yr hen Factory Shop ym Mwcle, a oedd yn eiddo i'w osod yn flaenorol, bellach ar werth, a chwestiynodd beth y gellid ei wneud i'r siop i ddenu cwmnïau, gan ei fod yn troi'n ddolur llygad. Rhoddodd y Rheolwr Menter ac Adfywio wybod ei fod yn ymwybodol ei fod ar werth ac y gallai'r pris gwerthu ddenu diddordeb, gan nad oedd y pris gosod wedi llwyddo i wneud hynny. Rhoddodd wybod eu bod mewn cysylltiad â'r perchennog i roi cefnogaeth a deall eu hamcanion tymor hwy ar gyfer yr uned.

Cododd y Cynghorydd Hardcastle bryder am y diffyg ymgynghori am leoliadau'r polion gan BT Openreach. Ymatebodd y Rheolwr Menter ac Adfywio drwy ddweud bod gan y Cwmni Cyfleustodau rymoedd a hawliau sylweddol, o ran gosod eu hisadeiledd. Rhoddodd wybod eu bod yn siarad â'r Cyngor, ond bod gan y Cyngor reolaeth gyfyngedig dros beth maent yn ei wneud ac ni allant fynnu eu bod yn ymgynghori. Rhoddodd wybod y bydd adborth yn cael ei roi i Openreach, fodd bynnag, roedd angen isadeiledd o ansawdd uchel sy'n addas i'r diben yn y dyfodol, sydd weithiau'n golygu amhariad.

Roedd y Cynghorydd Owen Thomas yn bryderus bod Canol Trefi yn cynnwys siopau elusen a chaffis yn unig, a bod angen edrych ar beth sy'n dod i'r dref, gan na fyddant yn goroesi.

Datganodd y Rheolwr Menter ac Adfywiad nad yw dyfodol Canol Trefi wedi newid yn sylweddol ers y 1970au, felly roedd angen cefnogi newid. Gyda'r argyfwng cyfredol, roedd y byd yn newid, a fydd yn achosi sefydliadau i feddwl sut maent yn gwneud busnes, a gall pobl fod yn dueddol o weithio'n lleol, ac mae hynny â'r potensial o ddod â chyfleoedd i ganol trefi.

Ychwanegodd y Cynghorydd Kevin Hughes bod angen seilio'r hyn sydd angen i ni ei wneud ar dystiolaeth, oherwydd ni allwn gystadlu gyda chanolfannau siopa e.e. Brychdyn a Cheshire Oaks, a bod angen cymysgedd o fanwerthu, nwyddau a gwasanaethau. Awgrymodd y dylid edrych ar drefi a dinasoedd eraill sydd wedi cyflawni llwyddiant go iawn, fel Altrincham a Rotherham.

Cytunodd y Rheolwr Menter ac Adfywio fod sail dystiolaeth yn bwysig iawn a bod Prosiect Gogledd Cymru yn cael ei gynnal i gynyddu'r ystod o dystiolaeth, fel y gellid gwneud cymariaethau. Cytunodd ei fod yn bwysig ein bod yn dysgu o ardaloedd eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion ac am y trosolwg manwl o'r maes pwysig hwn o waith, a oedd nawr yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Nodwyd.

**14. DIWEDDARIAD STRATEGAETH ADFERIAD (PORTFFOLIO CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

Rhoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) ddiweddariad cryno ar y ddwy elfen o'r adroddiad:-

- Yr amcanion i adfer ar gyfer y portffolio

- Y gofrestr risg portffolio, a’r camau lliniaru risg, sy’n fyw ac wedi’u cynllunio

Holodd y Cynghorydd Paul Shotton pa gynlluniau a oedd yn eu lle i symud y broses orfodaeth ymlaen, gan ei fod â nifer o faterion a oedd angen eu datrys. Rhoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi) wybod eu bod wedi cael ymgynghorwyr i gynorthwyo gyda’r ôl-groniad, gyda 160 o achosion yn cael eu trosglwyddo iddynt. Rhoddodd wybod, dim ond 30% o gapasiti oedd gan y tîm yn gynharach yn y flwyddyn, a oedd wedi effeithio’n sylweddol ar eu perfformiad. Roedd y tîm bellach yn ôl yn gweithio i’w gapasiti llawn ac yn gweithio trwy’r achosion a oedd yn weddill, wrth lynu wrth y blaenoriaethau sefydledig o fewn y Polisi Gorfodaeth Cynllunio. Rhoddodd y Prif Swyddog wybod fod 160 achos wedi’i drosglwyddo iddynt.

Holodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Dolphin, pa ganlyniadau a oedd wedi dod yn ôl gan Gontractwyr, a chyfeiriodd at ddau safle yr oeddent wedi bod iddynt, gydag adroddiadau eu bod wedi gyrru heibio heb oedi. Ymatebodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi) drwy ddweud, heb wybod yr achosion unigol ei fod yn anodd rhoi sylw, ond i gadw mewn cof y gellid cael tystiolaeth heb orfod mynd i safle, gan fod angen gofal wrth fynd ar y safleoedd, a’r risgiau a allai wynebu Swyddogion a’r Ymgynghorydd. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi’i feirniadu am beidio ag ymweld â safleoedd oherwydd y risg o achosion Covid, ac yn ddiweddar, roedd un safle â niferoedd uchel o Covid.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Shotton yr argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd gan y Cynghorydd David Evans.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi’r cynnydd a wnaed i gefnogi’r Strategaeth Adferiad gan y portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant.

## 15. DIWEDDARIAD STRATEGAETH ADFERIAD (PORTFFOLIO STRYD A CHLUDLIANT)

Rhoddodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) ddiweddariad cryno ar y ddwy elfen o’r adroddiad.

- Yr amcanion i adfer ar gyfer y portffolio
- Y gofrestr risg portffolio, a’r camau lliniaru risg, sy’n fyw ac wedi’u cynllunio

Gofynnodd y Cynghorydd Evans a ellid ymestyn oriau agor y Canolfannau Ailgylchu a Thai heibio 5.00 pm i ddarparu ar gyfer pobl sy’n gweithio, a gofynnodd hefyd a oedd staff yn gallu eich cynorthwyo chi fel y mae’n ei ddweud ar y wefan. Ymatebodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), drwy ddweud bod yr oriau agor yn newid yn y gaeaf, a bod cau am 5.00 pm yn seiliedig ar nifer y cwsmeriaid, gan nad yw’r ffigurau’n cyfiawnhau bod yn agored yn hwyrach. Ychwanegodd y byddai’n fodlon gwneud ymgynghoriad lleol gyda’r ymwelwyr. Hefyd, nid oedd cefnogaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddwyr ar hyn o bryd, ond os oedd angen cefnogaeth, gellid ei harchebu drwy’r Ganolfan Gyswllt. Byddai’r wefan yn cael ei diweddaru unwaith y byddai trefniadau wedi’u hadolygu.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Owen Thomas, rhoddodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) wybod, pan oedd angen trwsio cerbyd sbwriel, a bod hyn yn arwain at lai o gerbydau ar rownd, y gellid rhoi gwybod i Aelodau lleol yn y dyfodol. Cytunodd hefyd y byddai coed ar hyd yr A541 yn cael eu hasesu yn dilyn y cyfarfod.

Cwestiynodd y Cynghorydd Hardcastle a oedd y llwybr beiciau rhwng Ewlo ac Aston yn mynd yn ei flaen. Rhoddodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) wybod mai cynnig cefnffordd oedd hwn, ac mai eu cyfrifoldeb nhw oedd ei adeiladu.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd Hutchinson am nodi darpariaeth ychwanegol i safleoedd claddu, adroddodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), fod safle'r Hôb wedi'i brynu gan y Cyngor a bod astudiaethau amgylcheddol yn cael eu cynnal, cyn y gellid ei agor o bosibl yn y 3 i 4 mis nesaf. Ychwanegodd fod Penarlâg yn her oherwydd y problemau gyda'r perchennog tir ddim eisiau gwerthu, er bod safle arall wedi'i nodi a oedd yn lleol i'r safle presennol, gyda digon o le am nifer o flynyddoedd. Roedd Bwcle yn fwy o her ond roedd yn ymroddedig i ddod o hyd i ateb. Nid oedd yr un mewn cam critigol lle nad oedd yr un ddarpariaeth.

Cynigiodd y Cynghorydd David Evans yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn cefnogi'r cynnydd a wnaed i gefnogi'r Strategaeth Adferiad gan y portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant.

## 16. ADNEWYDDU GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS

Rhoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) gyflwyniad byr ar yr ymgynghoriad a wnaed ar y ddau Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (PSPO) yn ymwneud â Rheoli Cŵn a Rheoli Alcohol, ac yn ceisio barn, cyn eu hystyried yn y Cabinet, 20 Hydref.

Cyflwynodd Arweinydd Tîm Safonau Masnach yr adroddiad, gan amlinellu'r gofynion fel y nodwyd yn yr adroddiad. Eglurodd nad oedd PSPO's â'r hawl i gael effaith am fwy na thair blynedd, oni bai y cânt eu hymestyn o dan Bennod 2, Adran 60 o'r Ddeddf.

Roedd yr ymgynghoriad yn rhedeg rhwng 3 Awst a 4 Medi 2020, ac roedd y canlyniadau wedi'u rhestru yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys sylwadau a gafwyd drwy e-bost nad oedd modd eu cynnwys wrth lenwi'r arolwg electronig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Ellis, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio wybod, pan gyflwynwyd y Gorchymyn yn wreiddiol, roedd arwyddion wedi'u gosod i ddechrau, ond yn anffodus, dros amser roeddent wedi cael eu symud oddi yno. Roedd adolygiad llawn o'r arwyddion eisoes wedi digwydd a bydd arwyddion mwy cadarn yn cynnwys mapiau o'r ardal, yn dangos ardaloedd dan waharddiad. Byddai ardaloedd a oedd wedi'u hamlygu fel problem sylweddol, fel Maes Chwarae Lôn y Felin ger Ysgol Uwchradd Elfed,

Bwcle, y cyntaf ar y rhestr a phe bai'r estyniad hwn yn cael cymeradwyaeth, symudir ymlaen ag ef ar unwaith, a byddai'n cymryd 3 mis i gwblhau'r prosiect llawn.  O ran gorfodaeth o fewn ardaloedd dan waharddiad, mae'r Tîm yn gwirio arwyddion yn y lleoliad cyn iddynt gymryd unrhyw gamau, yn gyntaf drwy siarad â'r bobl, fel rhan o'r broses o ymgysylltu ac addysgu, i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o ba gyfyngiadau sydd yn y lleoliad hwnnw.  Os nad ydynt yn cymryd y cyngor hwnnw, yna byddai Rhybudd Cosb Benodedig yn cael ei roi.

Ychwanegodd y Cynghorydd Carolyn Thomas eu bod yn ymwybodol bod Grŵp Pysgota Rosie ym Mharc Gwepra wedi gofyn am PSPO o amgylch y llyn, i eithrio cŵn o'r ardal honno.  Ychwanegodd y Cynghorydd Shotton fod yr ardal wedi'i dosbarthu fel ardal hamdden.

Holodd y Cynghorydd Hughes ynghylch pam bod nifer y rhybuddion cosb benodedig yn isel, gan ei fod yn un o'r problemau mwyaf yr oedd pobl yn cysylltu ag ef amdanynt ar ei ward. Ynghyd â'r Cynghorydd Shotton, hoffai weld rhywbeth penodol yn y gorchymyn sy'n targedu perchnogion cŵn sy'n methu cael gwared ar wastraff yn y biniau a roddwyd.  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio nad oedd llwyddiant y tîm gorfodaeth yn cael ei fesur ar faint o rybuddion cosb benodedig a roddwyd, ond eu bod yn edrych ar ymgysylltiad ac addysg. Yn dilyn ymadawiad Kingdom, mae mwy o bwyslais wedi'i roi ar y tîm yn bod yn fwy gweladwy ac yn ymgysylltu a siarad â pherchnogion cŵn.  O dan Ddeddf yr Amgylchedd, gellir gweithredu camau gorfodi o dan 'taflu sbwriel' os yw'r Tîm yn gweld rhywun sydd ddim yn cael gwared ar fagiau gwastraff cŵn yn gywir.

Fel y gofynnwyd gan aelodau, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio ei bod mewn lle i rannu'r arwyddion llai safonol sydd ganddynt ar hyn o bryd, a gallai hefyd eu rhoi i Grwpiau Cymunedol i'w harddangos.  Unwaith y byddai'r arwydd mwy cadarn yn barod, byddai'n cael ei rannu gydag aelodau a byddent yn cael gwybod cyn y codir yr arwyddion yn eu wardiau.

Cynigiodd y Cynghorydd Patrick Heesom yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd gan y Cynghorydd David Evans.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet y dylid cytuno ar ymestyn y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (PSPO) presennol ar gyfer rheoli cŵn;

(b) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet y dylid cytuno ar ymestyn y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (PSPO) presennol ar gyfer rheoli alcohol;

(c) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet bod adolygiad yn cael ei wneud o'r holl arwyddion ym mhob safle, sy'n destun trefniadau PSPO.

## 17. ATTENDANCE BY MEMBERS OF THE PRESS AND PUBLIC

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.08pm)

.................................................

**Y Cadeirydd**